**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **26 Mawrth 2014**

**Aelod/Swyddog Arweiniol: Barbara Smith - Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad**
**Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio**

**Awdur yr Adroddiad:** **Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol**

**Teitl: Adroddiad drafft - 'Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus'**

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Dyma ymgynghoriad cyntaf gyda'r Pwyllgor ar yr adroddiad hunanasesu ar drefniadau llywodraethu a gwella'r Cyngor ar gyfer 2013/14.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Mae’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fel arfer yn cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor, y mae'r adroddiad hwn nawr yn ei ddisodli'r trwy gyfuno’r hunanasesiad llywodraethu blaenorol a hunanasesiad corfforaethol. Mae'n arfer da i ymgynghori'n eang ar yr hunanasesiad gydag aelodau etholedig ac uwch reolwyr ac mae hyn yn cychwyn y broses honno.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae'r Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar:

- y dull newydd o’r hunanasesu cyfunol;
- cynnwys yr hunanasesiad; ac
- a ydyw angen unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau at yr hunanasesiad.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Mae'n cael ei ystyried yn arfer da i ddatblygu 'datganiad llywodraethu blynyddol' (AGS) sy'n ffurfio rhan o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor ond, yn y gorffennol, bu rhywfaint o ddyblygu rhwng yr hunanasesu a oedd ei angen ar gyfer yr AGS a'r hunanasesu corfforaethol a oedd yn canolbwyntio mwy ar welliant parhaus. Felly, penderfynwyd cyfuno'r dogfennau i ddarparu dull arloesol sy'n arbed adnoddau ac yn darparu dull cydgysylltiedig o hunanasesu o fewn y Cyngor.

Mae Atodiad 1 yn rhoi Drafft yr ydym wedi’i alw’n 'Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus' sydd bellach yn agored ar gyfer ymgynghori ag aelodau etholedig ac uwch reolwyr. Dylai'r Pwyllgor nodi fod hwn yn ddrafft cynnar iawn sydd yn dal i fod yn waith ar y gweill, ac mae angen ei drafod ymhellach, yn enwedig gyda'r Uwch

Dîm Arweinyddiaeth. Bydd y fersiwn derfynol y cytunwyd arni yn cael ei llofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredol a’r Arweinydd erbyn 30 Mehefin 2014, ac yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn gyda'r Datganiad o Gyfrifon.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Er nad yw'r hunan-asesiad ei hun yn cyfrannu'n uniongyrchol at Flaenoriaethau Corfforaethol, mae'n darparu asesiad a sicrwydd ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, perfformiad gweithredol ac ariannol y Cyngor, trefniadau llywodraethu, ymgysylltu â'r gymuned ac ati, gyda phob un ohonynt yn cael eu cyfeirio tuag at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau ynghlwm wrth yr adroddiad hwn a'r unig effaith ar wasanaethau yw lle mae'r adroddiad yn nodi meysydd i wella; fodd bynnag, bydd gwasanaethau eisoes yn ymwybodol o'r rhain a dylent fod yn cynnwys hwn yn eu cynlluniau gwasanaethau.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i’r adroddiad.**

Nid yw'r adroddiad hwn angen penderfyniad neu gynnig ar gyfer newid, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Trafodwyd y ddogfen ddrafft yn CET 17 Mawrth 2014 a’r adroddiad hwn yw'r cam nesaf yn y broses ymgynghori. Bydd angen iddo gael ei drafod ymhellach gydag aelodau etholedig eraill, yna gyda’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth Mai 2014 cyn dychwelyd i'r Pwyllgor hwn fel 'drafft terfynol' ym Mai 2014.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma ymgynghoriad ar ddogfen ddrafft ac nid oes unrhyw risgiau wedi’u nodi ar hyn o bryd.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn, ond mae gofyniad o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i’r 'pwyllgor archwilio' oruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor.